



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Cynllun Menter 2017 - 2022

## Cyfleoedd a gweithgareddau masnachol sy'n cefnogi Rheoli a Defnyddio Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy



# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>Cefndir Polisi a Deddfwriaeth</b>	<b>3</b>
<b>Cwmpas</b>	<b>6</b>
<b>Egwyddorion y Fenter a Ffyrdd o Weithio</b>	<b>6</b>
• Rhwystrau o ran defnyddio incwm	
• Amserlenni.	
<b>Gweithio gydag Eraill</b>	<b>8</b>
<b>Datblygu a Gweithredu'r Cynllun Menter</b>	<b>8</b>
<b>Cam 1 Trefnu ein Gweithgareddau Menter mewn Portffolios</b>	
Trosolwg o'r Portffolios Menter:	
• Cynhyrchu Pren	
• Datblygu Ynni	
• Incwm Ystad Arall	
• Hamdden a Thwristiaeth	
• Gwasanaethau Dadansoddi.	
<b>Cam 2 Deall y Sefyllfa Ariannol, wedyn Pennu Targedau</b>	
<b>Cam 3 Aliniad Mewnol a Llywodraethu</b>	
<b>Pennu Cwmpas a Gwerthuso Cyfleoedd Newydd</b>	<b>13</b>
<b>Cymwyseddau, Sgiliau a Gwella ein Prosesau a'n Harbenigedd Busnes</b>	<b>13</b>
<b>Atodiad 1: Cymhwyso Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i Weithgareddau Menter Cyfoeth Naturiol Cymru</b>	<b>15</b>
<b>Atodiad 2: Themâu a Blaenoriaethau Cyfredol ar gyfer Portffolios Menter</b>	<b>16</b>

## Cyflwyniad

Etifeddodd Adnoddau Naturiol Cymru (NRW) amrediad o weithgareddau masnachol gan ei gyrff etifeddol, llawer ohonynt yn ymwneud â'r tir yr ydym yn ei reoli ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi parhau i gyflawni a datblygu'r gweithgareddau hyn fel rhan o'i gylch gwaith i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu defnyddio, a'u gwella'n gynaliadwy.

Mae gweithgareddau masnachol yn darparu ffrwd incwm bwysig i Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn cyfnod pan fydd arian cyhoeddus yn lleihau a'r cymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn gostwng. Fodd bynnag, mae gweithgareddau masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cael effaith economaidd gadarnhaol yng Nghymru, gan gefnogi a chreu swyddi a mentrau, a galluogi eraill i gymryd rhan ac elwa ar reoli a defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a chyfrannu at ddatblygiad yr Economi Werdd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mandad i Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy ei llythyr cylch gwaith blynyddol yn 2017–18 i “datblygu Cynllun Menter gyda cherrig milltir ar gyfer creu incwm sy'n cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan weithio gyda phartneriaid a chymunedau”. Mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfrannu'n weithredol at ddatblygu'r cynllun hwn.

Yr amserlen ar gyfer y Cynllun Menter yw 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2022, sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Corfforaethol.


Mae'r ddogfen hon yn amlinellu fframwaith Cynllun Rheoli Menter Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n gosod ein gweithgareddau masnachol o fewn cyd-destun Amcanion Llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru a'i gylch gwaith i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Wedyn mae'n nodi'r egwyddorion a fydd yn arwain ei weithgareddau masnachol a sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn trefnu'r rhaglen ac yn cynllunio datblygiad pob portffolio. Mae hefyd yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu y bydd eu hangen.

Mae'r cynllun yn rhoi syniad o raddfa'r meysydd gwahanol o weithgarwch masnachol, a'r themâu a'r blaenoriaethau cyfredol. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth ariannol fanwl na manylion cynhwysfawr am yr holl gamau gweithredu penodol rydym yn eu cymryd. Caiff y rhain eu hamlinellu yn ein Cynlluniau Busnes ar gyfer pob gweithgaredd. Bydd y Cynlluniau Busnes hefyd yn diffinio'r Targedau Ariannol a'r Mesurau Perfformiad ar gyfer pob portffolio o weithgareddau. Felly, er nad yw'r ddogfen hon yn nodi'r Targedau Ariannol, mae'n egluro sut a phryd bydd y targedau hyn yn cael eu diffinio, mewn ffordd sy'n gwella perfformiad ariannol yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

## Cefndir Polisi a Deddfwriaeth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio â holl ddeddfau a rheoliadau perthnasol y DU a'r UE, ac â holl bolisiau perthnasol Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gyflawni eu gweithgareddau masnachol. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn rheoleiddio gwirfoddol lle bo'n briodol, yn enwedig cynnal ardystiad annibynnol o Ystad Coetir

Yn ogystal â'r nifer sylweddol o ddyletswyddau penodol a rhwymedigaethau mewn perthynas â nifer fawr o reoliadau penodol y DU a'r UE, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldebau drosfwaol o dan ddau o Ddeddfau sy'n benodol i Gymru: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ddyletswydd i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant drwy Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – gweler Ffigur 1 isod.



**Ffigur 1. Nodau Llesiant ar gyfer Cymru**

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus ddatblygu set o Amcanion Llesiant, sy'n cael eu hadolygu a'u cyhoeddi bob blwyddyn mewn Datganiad Llesiant. [Cyhoeddwyd Datganiad Llesiant](#) Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2017 ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r datganiad yn cynnwys Amcanion Llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n nodi'r sail ar gyfer Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ein Hamcanion Llesiant fel a ganlyn:

- Hyrwyddo amgylchedd Cymru a rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy
- Sicrhau bod tir a dŵr yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mewn modd integredig
- Gwella cydnerthedd ac ansawdd ein hecosystemau
- Lleihau'r risg i bobl a chymunedau gan beryglon amgylcheddol megis llifogydd a llygredd
- Helpu pobl i fyw bywydau iachach a mwy boddhaus
- Hyrwyddo busnes llwyddiannus a chyfrifol gan ddefnyddio adnoddau naturiol heb beri difrod iddynt

- Datblygu Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn sefydliad rhagorol sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid o'r radd flaenaf.

Mae Deddf yr Amgylchedd yn amlinellu diben Cyfoeth Naturiol Cymru, sef:

- Mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a
- chymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth arfer ein swyddogaethau.

Mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn cysylltu'n agos â'r pum ffordd o weithio a amlinellwyd, y mae'n ofynnol inni eu dilyn o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Maent fel a ganlyn:

- meddwl yn y tymor hir
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- chyfranogiad.

Mae'r Cynllun Menter wedi'i alinio i ddiben Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Amcanion Llesiant, y pum ffordd o weithio, a'r rhwymedigaethau cyfreithiol a'r diben a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd, fel y'u hamlinellir yn siart *Cymhwyso Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i Weithgareddau Menter Cyfoeth Naturiol Cymru* (Atodiad 1). Mae rhan uchaf y siart yn dangos y mathau o gyfraniadau y gall Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy eu gwneud at y Nodau Llesiant ac yna'n mynd yn ei blaen i ddangos sut y bydd gweithgareddau masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu hystyried a'u halinio.

Er bod Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, nid yw'r deddfau hyn ynddynt eu hunain yn rhoi'r pwerau cyfreithiol i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai gyfrannu'n gadarnhaol at y diben cyffredinol hwn. Er enghraifft, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd a'r pŵer i ddefnyddio adnoddau naturiol i ddarparu cyfleoedd mynediad a hamdden i gyfrannu at wella iechyd pobl, ond nid oes ganddo gyloch gwaith o bwerau i redeg ysbytai.

Er mwyn ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn dod o dan bwerau cyfreithiol presennol Cyfoeth Naturiol Cymru, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai newid y ddeddfwriaeth i roi'r pwerau hynny i Cyfoeth Naturiol Cymru neu roi'r awdurdod dirprwyedig i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgymryd â gweithgareddau o'r fath sydd o fewn pwerau cyfreithiol Llywodraeth Cymru.

Mae'n bosibl y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cael cydberthynas masnachol â thrydydd parti mewn rhai sefyllfaoedd, er enghraifft, ar ffurf prydles gyda datblygwr neu gorff, nad yw'n cael ei rhwystro gan yr un pwerau cyfreithiol.

## Cwmpas

Cwmpas y Cynllun Menter yw'r gweithgareddau masnachol a ymgwymerir â nhw gan Cyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio'r pwerau cyfreithiol cyfredol a'r awdurdod dirprwyedig sydd ganddo i werthu cynhyrchion a gwasanaethau, neu i roi'r hawl i bobl eraill ddefnyddio'r tir neu'r asedau a reolir ganddo.

Er bod y rhan fwyaf o'r gweithgareddau masnachol cyfredol yn seiliedig ar y tir a reolir yn uniongyrchol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (neu ar dir cyfagos), mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod, wrth i'w arbenigedd ddatblygu, efallai y bydd cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau masnachol eraill sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy; enghraifft gynnar o hyn byddai'r Gwasanaethau Dadansoddi arbenigol a ddarperir gan dîm Labordy Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ni fydd y Cynllun Menter yn cynnwys adennill costau a eir iddynt wrth i ni ymgymryd â'n dyletswyddau rheoleiddiol. Mae'r costau rheoleiddiol hynny'n cael eu trafod o dan "Gyfundrefn Codi Ffioedd" Cyfoeth Naturiol Cymru. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru drwy ddilyn y ddolen at [Ein Taliadau](#).

## Egwyddorion Menter a Ffyrdd o Weithio

Cefnogi Rheoli a Defnyddio Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yw sail resymegol Cyfoeth Naturiol Cymru dros ymgymryd â gweithgareddau masnachol, ond bydd yr egwyddorion canlynol a ffyrdd o weithio yn arwain sut, fel corff cyhoeddus yng Nghymru, y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu ac yn rhoi ei weithgareddau masnachol ar waith.

1. Er mwyn diogelu a gwella'r gwaith o gyflawni er budd y cyhoedd, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried diffinio *Mesurau Perfformiad* yn ofalus a fydd yn cyflwyno paramedrau priodol i weithgareddau masnachol weithredu ynddynt.
2. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau bod rhaglenni masnachol yn cael eu datblygu gyda dealltwriaeth o'r marchnadoedd y maent yn gweithredu ynddynt, ac yn ymgysylltu'n briodol â'r sectorau masnachol lle y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rôl arwyddocaol.
3. Lle bynnag y mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru *ryddid dewis*<sup>1</sup> bydd yn dyfarnu contractau a chytundebau masnachol eraill drwy gystadleuaeth deg ac agored, gan sicrhau pan fydd ffactorau nad ydynt yn ariannol yn cael eu hystyried, bod y meini prawf hyn yn cael eu diffinio'n glir a'u gwerthuso'n dryloyw.
4. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd ac yn annog cystadleuaeth drwy gynnig cyfleoedd masnachol ar raddfeydd gwahanol, lle bynnag y bo'n ymarferol, a thrwy archwilio modelau darparu gwahanol.
5. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn osgoi effeithio'n niweidiol ar sectorau busnes drwy gystadleuaeth annheg. I'r perwyl hwn, ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthu

---

<sup>1</sup>Lle mae angen i CNC weithio gyda thrydydd partion sydd â buddiant cyfreithiol neu gytundebol presennol mewn tir a reolir gan CNC (neu ar dir cyfagos) gall hyn gyfyngu ar allu CNC i sicrhau cystadleuaeth deg ac agored. Mae'n bosibl hefyd y bydd sefyllfaoedd lle mae CNC yn gorfod contractio gwaith allan drwy gcontractau fframwaith Llywodraeth Cymru.

nwyddau a gwasanaethau o dan werth y farchnad, a bydd yn gweithio i sicrhau'r gwerth gorau a sicrhau bod yr holl gostau yn cael eu haddeniill yn llawn.

6. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio â rheolau "Cymorth Gwladwriaethol yr UE" drwy gyfuniad o'r mesurau uchod a thrwy geisio cyngor pan nad yw'n glir, er mwyn osgoi unrhyw achosion o dorri'r rheoliadau.
7. Mewn sefyllfaoedd lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig gwasanaeth unigryw, ni fydd yn manteisio ar ddiffyg cystadleuaeth a byddwn yn cadw'r taliadau o fewn terfyn rhesymol.
8. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau uniondeb a gonestrwydd yn y ffordd y mae incwm a gwariant yn cael eu cyfrif mewn perthynas â gweithgareddau masnachol. Bydd yr Adroddiadau Ariannol yn nodi meintiau elw net a lle bo'n berthnasol, perfformiad ariannol modelau gweithredu gwahanol. Pan fydd Mesurau Perfformiad yn arwain Cyfoeth Naturiol Cymru i ddarparu budd cyhoeddus neu amgylcheddol ychwanegol, bydd yn ceisio asesu'r gost o wneud hynny er mwyn caniatáu i gostau / buddion gael eu hystyried.
9. Pan fydd yn ystyried penderfyniadau buddsoddi ac achosion busnes ar gyfer gweithgareddau masnachol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymhwyso dull hirdymor, bywyd cyfan, gan gynnwys cyllid refeniw, cost y staff, a gwerthoedd cyfalaf.
10. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau llywodraethu mewnol effeithiol o ran datblygu gweithgareddau masnachol ac yn asesu cynnydd yn erbyn Targedau Ariannol a Mesurau Perfformiad eraill.

## Cyfyngiadau ar ddefnyddio incwm

Yn gyffredinol, ac eithrio'r incwm net o Brosiectau Ynni Gwynt ar ei dir, gall Cyfoeth Naturiol Cymru gadw'r incwm o weithgareddau masnachol, a bydd hyn yn ei helpu i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Fodd bynnag, mae rheolau ynghylch defnyddio ffrydiau incwm penodol o weithgareddau gwahanol. Diffinnir y rhain mewn nifer o fannau: o ddeddfwriaeth benodol i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Arian Cyhoeddus Cymru, Cytundeb Fframwaith Cyfoeth Naturiol Cymru gyda Llywodraeth Cymru a'r disgyblaethau mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cyflwyno fel rhan o'r Adolygiadau Maes Busnes er mwyn osgoi traws-gyllido rhwng gweithgareddau gwahanol. Bydd llywodraethu mewnol a gwasanaethau Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau hyn, ond ni ddylai'r rheolau eu hunain fod yn rhwystr i archwilio cyfleoedd masnachol newydd.

## Amserlenni

Mae cyfnod pum mlynedd y Cynllun Menter wedi'i alinio i gylchred Cynllunio Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, ond bydd y cynllun yn ceisio adeiladu ffrydiau incwm hirdymor y gellir eu defnyddio i gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.

Bydd y broses o weithredu'r Cynllun Busnes yn cynnwys datblygu Cynlluniau Busnes manwl ar gyfer gweithgareddau, sy'n dangos rhagamcanion incwm a gwariant a thargedau ar gyfer y pum mlynedd, a fydd yn gysylltiedig ag amserlenni Corfforaethol / Cynllunio Busnes. Yn y cyfamser, mae'r costau a'r targedau incwm a ragwelwyd ar gyfer 2017/18 wedi'u cynnwys yn y Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

Bydd y Cynlluniau Busnes hyn ar gyfer pob maes gweithgaredd yn nodi'r camau a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wella incwm yn y tymor byr, er mwyn cyflawni'r arbedion a

amlinellir yn yr Adolygiadau Maes Busnes, a helpu i liniaru'r gostyngiadau mewn Cymorth Grant Llywodraeth Cymru.

## Gweithio gydag eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod nad oes ganddo'r capasiti na'r holl alluoedd sy'n ofynnol i wireddu'r holl gyfleoedd masnachol sydd ar gael. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, felly, wedi ymrwymo i weithio gydag eraill i sicrhau bod y galluoedd cywir yn cael eu defnyddio, ac er mwyn atal adnoddau mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru rhag dod yn ffactor cyfyngol wrth ddatblygu ei weithgareddau masnachol.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored i weithio mewn ffyrdd newydd, gan ddefnyddio mecanweithiau newydd lle bo'n briodol, megis partneriaethau neu fentrau ar y cyd, i gyflawni'r canlyniadau gorau – yn amodol ar y cymeradwyaethau angenrheidiol.

Yn ogystal â gweithio gyda'r sector preifat, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn agored i wneud cytundebau masnachol gyda'r sector gwirfoddol, gan gynnwys cyrff cymunedol megis mentrau cymdeithasol.

Ni fydd prosiectau cymunedol yn cael eu heithrio o'r angen i gynnig gwerth am arian – fodd bynnag, lle maent yn cynnig buddion cymdeithasol, amgylcheddol neu economaidd ychwanegol, gall hyn gael ei ystyried wrth asesu prosiectau sy'n cystadlu. Bydd gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn esbonio sut y gall partïon sydd â diddordeb gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru a mynd â'u cynigion yn eu blaen.

## Datblygu a Gweithredu'r Cynllun Menter

Mae'r Cynllun Menter yn cael ei ddatblygu gam wrth gam.

### Cam 1 Trefnu ein Gweithgareddau Menter mewn Portffolios

Ar ôl amlinellu sut mae gweithgareddau masnachol Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni ei Amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (fel yr amlinellir yn y siart lif yn Atodiad 1), mae ei weithgareddau masnachol wedi cael eu trefnu mewn portffolios o weithgareddau, a fydd yn darparu sail ar gyfer cynllunio a datblygiad busnes. Mae gweithgareddau masnachol cyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn dod o dan y portffolios canlynol:

- Cynhyrchu Pren
- Datblygu Ynni
- Incwm Ystad Arall
- Hamdden a Thwristiaeth
- Gwasanaethau Dadansoddi.

Dangosir crynodeb o'r portffolios a'r allbynnau yn Nhabl 1 isod. Disgrifir y themâu cyfredol a'r blaenoriaethau ar gyfer pob portffolio yn Atodiad 2.




Tabl 1: Disgrifiadau Portffolio

Portffolios Cyfredol	Disgrifiad / Enghreifftiau	FY17/18 Amlinelliad Cyfredol o'r Rhaglen
<b>Cynhyrchu Pren</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaglen deneuo</li> <li>• Rhaglen llwyrgwympo coed</li> <li>• Rhaglen ailstocio cysylltiedig ardaloedd cwmpedig</li> <li>• Cynnal a chadw seilwaith drwy beirianeg sifil a rheoli llystyfiant wrth ymyl y ffordd.</li> </ul>	<p>Gwerthwyd 850,000m<sup>3</sup> o goed (Cymysgedd o Werthiannau Sefydlog a Chynhyrchiant Uniongyrchol)</p> <p>Amrywiaeth eang o gynnyrch coed ar gyfer marchnadoedd gwahanol.</p>
<b>Datblygu Ynni</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ynni gwynt ar y tir</li> <li>• Ynni dŵr</li> <li>• Ynni'r haul</li> <li>• Datblygu biomas</li> <li>• Ymateb i geisiadau am ynni anadnewyddadwy.</li> </ul>	<p><b>Prosiectau ynni gwynt ar y tir</b> Pen y Cymoedd 228 MW Gorllewin Coedwig Brechfa 57 MW Coedwig Clocaenog 96 MW Prosiectau eraill sy'n cael eu datblygu Gwelliannau, e.e. storio batris.</p> <p>Cynnig mynediad trydydd parti ar draws yr ystâd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i brosiectau ynni gwynt ar dir cyfagos.</p> <p><b>Prosiectau ynni dŵr</b> 10 achos busnes ar gyfer prosiectau ynni dŵr hunanadeiladu wedi'u paratoi.</p>
<b>Incwm Ystad Arall</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Incwm rhentu a phrydles</li> <li>• Fforddfreintiau a mastiau telathrebu</li> <li>• Gwerthiannau o asedau dros ben</li> <li>• Hawliau ffilmio.</li> </ul>	<p>Mastiau telathrebu Cytundebau mynediad trydydd parti Hawliau mwynol Gwerthiannau tir dros ben a depos.</p>
<b>Hamdden a Thwristiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfannau ymwelwyr</li> <li>• Taliadau meysydd parcio</li> <li>• Prydlesau safleoedd hamdden</li> <li>• Datblygu cabanau</li> <li>• Caniatadau digwyddiadau.</li> </ul>	<p><b>Canolfannau ymwelwyr</b> 4 Canolfan ymwelwyr a reolir yn uniongyrchol: Coed y Brenin, Nant yr Arian, Ynyslas a Garwnant.</p> <p>Sawl safle arall gyda thaliadau maes parcio, gan gynnwys Niwbwrch a Moel Famau.</p> <p><b>Datblygu cabanau</b> 2 safle Forest Holidays gyda chymeradwyaeth cynllunio: Beddgelert a Garwnant.</p>

Portffolios Cyfredol	Disgrifiad / Enghreifftiau	FY17/18 Amlinelliad Cyfredol o'r Rhaglen
		Cannoedd o ddigwyddiadau ledled Cymru, sy'n amrywio o ddigwyddiadau cymunedol lleol i Rali Cymru Prydain Fawr.
<b>Gwasanaethau Dadansoddi</b> (Dadansoddiad cemegol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dadansoddiad cemegol o samplau amgylcheddol i ddarparu tystiolaeth er mwyn caniatáu'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn labordy ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddiadau yn gysylltiedig â gofynion mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru, ond mae elfen gynyddol o ddadansoddi masnachol allanol.</li> </ul>	Dadansoddi ansawdd dŵr Dadansoddi llygredd Dadansoddi priddoedd Dadansoddi gwaddodion morol a biota Samplu goddefol Graddnodi mesuryddion maes.

Mae'n anodd cymharu maint portffolios gwahanol gan fod allbynnau gwahanol gan bob un ohonynt. Dangosir syniad o'r maint cymharol yn seiliedig ar incwm gros yn Ffigur 2 isod. Fodd bynnag, nid yw incwm gros ond yn rhoi syniad o drosiant, ac nid yw'n dynodi proffidoldeb.

Dadansoddiad o Incwm Gros 2016/17



## Ffigur 2. Syniad o Faint Cymharol Gweithgareddau Masnachol Cyfredol

Nid yw maint cymharol portffolios gwahanol yn sefydlog, a bydd yn datblygu dros amser mewn ymateb i amcanion corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, y marchnadoedd, a'r cyfleoedd masnachol sydd ar gael. Er mai cynhyrchu pren yw'r elfen fwyaf ar hyn o bryd, mae potensial sylweddol gan rai o'r meysydd llai eraill i dyfu yn y tymor canolig a'r tymor hir.

## Cam 2 Deall y Sefyllfa Ariannol, a Phenni Dargedau wedyn

Y flaenoriaeth nesaf fu sefydlu dealltwriaeth glir o sefyllfa ariannol pob gweithgaredd masnachol, er mwyn adeiladu gwaelodlin ariannol a galluogi cynllunio a rhagolygu ar gyfer y dyfodol. Nid incwm gros yw'r mesur perfformiad mwyaf defnyddiol, yn hytrach, bydd y pwyslais ar incwm net ar ôl ystyried yr holl gostau cysylltiedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl weithgareddau masnachol yn cyfrannu'n gadarnhaol at sefyllfa ariannol gyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae tîm Cyllid Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn datblygu Adroddiadau Ariannol ar gyfer y gwahanol bortffolios sy'n nodi incwm, gwariant a meintiau elw net, gan ddefnyddio 2016–17 yn flwyddyn waedlodlin, ac wedyn amlinellu'r ffigurau cyllidebol cyfredol ar gyfer 2017–18 yn yr un fformat adrodd, er mwyn caniatáu i'r cynnydd ariannol gael ei fesur a'i gymharu'n gywirach nag sy'n ymarferol ar hyn o bryd.

Mae'r Adroddiadau Ariannol hyn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth sy'n fasnachol sensitif, ac felly nid ydynt yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r cynllun hwn. Byddant yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cynlluniau Busnes manwl ar gyfer pob portffolio gyda rhagamcanion ariannol hyd 2022. Cyn y gellir pennu'r Targedau Ariannol, bydd angen cadarnhau'r Mesurau Perfformiad ar gyfer pob gweithgaredd. Nid yw Cynllun Busnes presennol Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi digon o fanylion i bennu Mesurau Perfformiad ar gyfer llawer o'i weithgareddau masnachol, ac nid yw'r targedau cyfredol a'r Mesurau Perfformiad yn darparu digon o fframwaith i arwain ei weithgareddau masnachol a mesur cynnydd.

Felly, bydd Mesurau Perfformiad Addas yn cael eu nodi ar gyfer pob un o'r portffolios mewn da bryd, i lywio'r gwaith o ddatblygu Targedau Ariannol yn Hydref 2017 pan fydd y cyllidebau ar gyfer 2018–19 yn cael eu llunio. Rhoddir enghraifft o sut y gallai'r Mesurau Perfformiad a'r Targedau Ariannol ymddangos ar gyfer Cynhyrchu Pren yn Nhabl 2 isod, i ddangos natur y mesurau a'r targedau.

**Tabl 2: Mesurau Perfformiad Posibl a Thargedau ar gyfer Cynhyrchu Pren**

Mesurau Perfformiad Posibl	Targed Ariannol
<p><u>Cydymffurfiaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Statudol</li> <li>Cydymffurfiaeth â Llywodraeth Cymru Strategaeth Reoli Heintiau <i>P. ramorum</i></li> <li>Cadw Ardystiad Coedwig <ul style="list-style-type: none"> <li>Dim Camau Unioni Sylweddol mewn perthynas â Chynhyrchu Pren yn deillio o archwiliadau.</li> </ul> </li> </ul>	<p>Caiff y Targedau Ariannol eu datblygu yn seiliedig ar Incwm Net. Bydd hyn yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Costau staff</li> <li>Yr Holl Gostau Cynaeafu ac Ailstocio</li> <li>Yr Holl Gostau Peirianeg Sifil</li> <li>Incwm pren yn ogystal ag unrhyw gyllid penodol ac unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithrediadau <i>P. ramorum</i>.</li> </ul> <p>Ond ni fydd y targedau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gorbenion Canolog Cyfoeth Naturiol Cymru ac</li> </ul>
<p><u>Rhaglen Gynaeafu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthu pren yn unol â pharmedrau a amlinellir o fewn cynllun Marchnata Pren Cyfoeth Naturiol Cymru, e.e. y meintiau o bren a gynigir i'r farchnad yn ôl y math sy'n cael ei werthu</li> <li>Cyflawni cynnydd cyson o ran y Rhaglen Deneuo o X% erbyn 2020.</li> </ul>	

<p><u>Ailstocio</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dod â'r ardal tir cwmpedig o fewn lefelau cynaliadwy erbyn 2022 <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Dim mwy na 4% o'r ardal goedwig gynhyrchiol ar yr ystad goedwig gyhoeddus</li> </ul> </li> <li>• Cyflawni o leiaf 90% o'r dwyseddau stocio targed mewn ardaloedd sydd wedi'u hailstocio erbyn blwyddyn tri o'r cnwd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• unrhyw Gyfalaf a ariennir gan brosiectau peirianeg yn y dyfodol, e.e. Adfer tirlithriad, ailosod pontydd (dim ar hyn o bryd).</li> </ul>
<p><u>Iechyd a Diogelwch</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau tuedd damweiniau fesul m<sup>3</sup> o'r coed a gynaeafir</li> <li>• Dysgu o ddigwyddiadau y bu ond dim iddynt ddigwydd (cymhareb adrodd am ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd i ddamweiniau &gt;3:1)</li> <li>• Camau gweithredu yn dilyn Adolygiadau Damweiniau Difrifol a weithredwyd o fewn amserlenni diffiniedig.</li> </ul>	<p>Byddai'r Targedau Ariannol ar gyfer y maint elw net yn cael eu pennu yn ôl tuedd ar i fyny a tharged gwaged net cronus dros y pum mlynedd, oherwydd mae'n bosibl y bydd amrywiad o ran prisiau'r farchnad o un flwyddyn i'r llall. Bydd lwfans trosglwyddo ymlaen Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer incwm pren yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer amrywiadau incwm o flwyddyn i flwyddyn.</p>
<p><u>Amgylchedd</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caniatáu o leiaf 1,000ha o adfer Coetir Hynafol drwy lwyrgwmpo Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol</li> <li>• Gweithio tuag at adfer pellach drwy deneuo o leiaf 1,600ha o Blanhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol.</li> </ul>	<p>Bydd y Targed Incwm Net yn cael ei ddsrannu i bob un o'r chwe rheolwr tir sy'n Seiliedig ar Leoedd yn strwythur ein Dyluniad Sefydliadol a'n Canolfan Gostau. Bydd Targedau Ardal yn cael eu llywio gan ddisgwyliadau gwaelodlin priodol ar gyfer pob Ardal.</p>

### Cam 3 Aliniad Mewnol a Llywodraethu

Mae Is-grŵp Menter Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael ei ffurfio i oruchwylio datblygiad y Cynllun Menter, a bydd yn darparu goruchwyliaeth ar gyfer datblygu a gweithredu'r Cynllun ymhellach. Bydd adroddiadau chwarterol, gan gynnwys adroddiadau cynhyrchu refeniw a chynnydd yn erbyn y Mesurau Perfformiad allweddol yn cael eu cyflwyno i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Yn 2017, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cwblhau'r gwaith o ddatblygu Dyluniad Sefydliadol newydd er mwyn darparu'r strwythur, y llywodraethu, a'r ffyrdd o weithio sydd eu hangen i gyflawni ei fusnes, gan gynnwys y gweithrediadau masnachol. Mae Pennaeth Gweithrediadau Masnachol wedi cael ei benodi i ddarparu arweiniad ar gyfer gweithrediadau masnachol, a bydd strwythurau llywodraethu newydd neu ddiwygiedig priodol yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer pob un o'r Portffolios Menter yn 2017 er mwyn monitro cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Menter, darparu craffu ariannol, a goruchwylio datblygiad rhaglenni a phrosiectau.

Bydd strwythurau llywodraethu sydd eisoes yn bodoli, megis Bwrdd y Rhaglen Cyflenwi Ynni a Fforwm Rheoli'r Ystad, yn parhau i fonitro ac adrodd ar bortffolios menter penodol nes y bydd y Cynllun Sefydliadol wedi'i gwblhau ac y bydd unrhyw newidiadau o ran llywodraethu wedi cael eu cyflwyno. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn parhau i graffu ar sicrwydd risg lle bo angen. O ystyried yr amrediad amrywiol o bortffolios, bydd y llywodraethu'n cael ei deilwra i gyd-fynd ag anghenion busnes. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen grŵp llywodraethu ar gyfer portffolio y Gwasanaethau Dadansoddi, a fydd yn ystyried y gwasanaethau labordy masnachol allanol o fewn cyd-destun gweithgareddau Monitro a Thystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn gyd-destun cwbl wahanol i bortffolio Ynni Cyfoeth Naturiol Cymru.

Fodd bynnag, bydd gweithredu'r newidiadau strwythurol yn llawn ar draws Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd mwy o amser na chyflwyno trefniadau llywodraethu newydd. Mae hyn oherwydd bod angen ymgymryd â newid strwythurol mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau ar gwsmeriaid ac sy'n unol â gweithdrefnau rheoli newid Cyfoeth Naturiol Cymru.

## **Pennu Cwmpas a Gwerthuso Cyfleoedd Newydd**

Yn ogystal â datblygu cynlluniau busnes clir ar gyfer ei weithgareddau cyfredol a'i dimau aliniedig, er mwyn galluogi gweithrediad effeithiol, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru allu pennu cwmpas a gwerthuso cyfleoedd a syniadau newydd. Gall rhai o'r cyfleoedd hyn ddod trwy esblygiad y gweithgareddau cyfredol, ond bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn rhoi ystyriaeth weithredol i syniadau ac awgrymiadau ar gyfer gweithrediadau masnachol ac arloesi newydd. Caiff portffolio Cyfleoedd Newydd ei ddatblygu i'r perwyl hwn cyn diwedd 2017–18, a bydd yn gwerthuso syniadau busnes o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru a chan ffynonellau allanol sydd am ddefnyddio ei adnoddau.

Bydd syniadau masnachol newydd yn cael eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn y siart lif yn Atodiad 1, sy'n dechrau trwy asesu a yw'r cynnig yn cyfrannu'n gadarnhaol at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, ac yna'n ystyried cyfres o feini prawf sydd wedi'u cynllunio i dargedu adnoddau sy'n gysylltiedig â'r syniadau mwyaf addawol ac osgoi rhoi adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun (a'r rheini sy'n eiddo i eraill) i brosiectau sydd wedi eu halinio'n wael i'n hamcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a / neu nad oes ganddynt sail fasnachol gadarn.

Bydd syniadau ar gyfer arloesedd a ffyrdd newydd o weithio yn cael eu gwerthuso o ran eu dichonoldeb a pha mor gost effeithiol ydynt, a bydd yr asesiad hwn yn cynnwys cymysgedd o bobl o fewn y maes hwnnw o'r busnes a phobl eraill sydd â safbwynt newydd.

## **Cymwyseddau, Sgiliau a Gwella ein Prosesau a'n Harbenigedd Busnes**

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn glir ac yn onest o ran p'un a yw'n meddu ar y sgiliau busnes cywir i ddatblygu a chyflawni'r rhaglenni masnachol. Mewn nifer o achosion, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag eraill a allai fod mewn sefyllfa well i gyflawni agweddau o'r gweithgaredd masnachol ac sy'n meddu ar y sgiliau cywir sydd eu hangen. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd y bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gryfhau ei allu masnachol ei hun o ran meysydd megis ymchwil i'r farchnad, marchnata, datblygu cynhyrchion, arslloesedd,

cynllunio busnes, caffael neu sgiliau negodi. Bydd cyfuniad o hyfforddiant, darpariaeth gan gyflenwyr allanol a recriwtio yn ofynnol i gau'r blwch sgiliau.

Yn ogystal â gwella ei allu masnachol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn nodi cyfleoedd i wella prosesau a systemau er mwyn gweithio mewn modd effeithlon a gwella perfformiad. Bydd hyn yn amrywio o fireinio canllawiau a gweithdrefnau hyd at wella neu ddisodli systemau TGCh neu fabwysiadu technoleg newydd.

#### **Cyhoeddwyd gan:**

**Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP**

**0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)**

**[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)**

**© Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru.**

#### **Hanes Fersiynau**

<b>Fersiwn y Ddogfen</b>	<b>Dyddiad Cyhoeddi</b>
<b>v1.0 Olaf [27/10/2017]</b>	<b>Hydref 2017</b>
<b>V2.0 Mân ddiwygiad</b>	<b>Ebrill 2019</b>



**Cyfoeth  
Naturiol**  
Cymru  
**Natural  
Resources**  
Wales

# Cynllun Menter 2017 - 2022

**Atodiad 1: Cymhwyso Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy i Weithgareddau Menter Cyfoeth Naturiol Cymru**

## Atodiad 2: Themâu Cyfredol a Blaenoriaethau ar gyfer Portffolios Menter

### Cynhyrchu Pren

- Gweithredu'r Cynllun Marchnata Pren newydd ar gyfer 2017 - 2022. Yn benodol:
  - Cynyddu'r gyfran o bren a werthir drwy Werthiannau Sefydlog
  - Mireinio'r dull Gwerthiannau Sefydlog Ychwanegol o werthu er mwyn gwneud y gorau o'r manteision i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth
  - Asesu'r perfformiad o ran dulliau gwerthu gwahanol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gwerthiannau pren.
- Gwella safonau lechyd a Diogelwch yn ystod gweithrediadau coedwigaeth mewn cydweithrediad agos â'r sector coedwigaeth ac yn unol â Chytundeb Diogelwch y Diwydiant Coedwigaeth.
- Parhau i werthu larwydd yn unol â'r Strategaeth Rheoli Heintiau *P. ramorum*.
- Datblygu ein gallu E-busnes ymhellach er mwyn cadarnhau a gwella system TGCh y Plattform Marchnata Pren a chyflwyno arwerthiannau pren electronig, er mwyn cynyddu'r gystadleuaeth cymaint â phosibl.
- Integreiddio'r gwaith o Gynaeafu Pren, Ailstocio a Chynllunio Gweithredol i ffurfio timau Gweithrediadau Coedwig lleol fel rhan o Ddyluniad Sefydliadol Cyfoeth Naturiol Cymru. Y nod fydd creu timau cydnerth sy'n gallu ymdopi'n well wrth ymdrin â'r rhyngddibyniaethau rhwng gweithgareddau a gweithredu mewn modd mwy grymus ac ystwyth, i gyflawni'r gwerth gorau drwy wneud penderfyniadau gwell.
- Sicrhau ailstocio sy'n gost effeithiol drwy dargedu'r mewnbynnau yn gymesur â'r allbynnau posibl, er mwyn cyflawni manyleb uchel ar safleoedd sydd â'r potensial uchaf i dyfu coed yn broffidiol. Lleihau arwynebedd y tir cwmpedig sy'n aros i gael ei ailstocio, a monitro cynnydd drwy Fesurau Perfformiad tryloyw.

### Datblygu ynni

- Gweithio gyda datblygwyr drwy gam adeiladu 3 phrosiectau ynni gwynt mawr ym Mhen y Cymoedd, Coedwig Brechfa a Choedwig Clocaenog i gyflawni Polisi Llywodraeth Cymru.
- Trafod y cynllun i ail-bweru fferm wynt Cefn Croes yng Nghanolbarth Cymru er mwyn galluogi allbynnau ynni uwch ac incwm gwell.
- Asesu'r potential ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ychwanegol ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth ymateb yn briodol i gynigion gan ddatblygwyr.
- Cytuno â Llywodraeth Cymru o ran sut i ddatblygu'r rhaglenni ynni adnewyddadwy ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru o fewn marchnad ôl-gymhorthdal.
- Cryfhau gweithio ar y cyd gyda pherchnogion tir cyfagos a pherchnogion rhydd-daliadau o ran elfennau rhydd-daliad yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn caniatáu i brosiectau ynni adnewyddadwy gael eu datblygu.
- Symud ymlaen at gwblhau prosiectau ynni dŵr bach ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gyfleoedd hunanadeiladu a marchnata.



- Archwilio'r potensial i'r Gronfa Twf Gwerdd ariannu prosiectau ynni dŵr ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Nodi mecanweithiau i gymunedau gael eu cynnwys a bod yn berchen ar brosiectau ynni adnewyddadwy ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Pennu potensial masnachol y cysyniad o Barciau Ynni lle mae datblygiadau storio batris, ynni solar, ac ynni biomas yn cael eu hintegreiddio â datblygiadau ffermydd gwynt.
- Cydweithredu ar sail fasnachol â cheisiadau gan berchnogion Trwyddedau Archwilio a Datblygu Petrolewm a chronfeydd glo wrth gefn, gan osgoi hyrwyddo ynni anadnewyddadwy yn weithredol.

### Gweithgareddau Hamdden

- Gwella perfformiad Canolfannau Ymwelwyr drwy weithredu'r adolygiad o Ganolfannau Ymwelwyr.
- Datblygu polisi codi ffioedd Maes Parcio newydd a threialu'r defnydd o dechnoleg newydd i wella'r broses o gasglu refeniwiau.
- Gweithio gyda Forest Holidays yn ystod cam adeiladu'r gwaith o ddatblygu cabanau yng Ngarwnant a Beddgelert a nodi safleoedd posibl ar gyfer datblygu cabanau.
- Asesu'r potensial ar gyfer prosiectau hamdden masnachol newydd mewn lleoliadau allweddol ar dir Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth â rheolwyr lleol a phartneriaid allanol.
- Gweithredu ffyrdd newydd o weithio ar gyfer chwaraeon modur i sicrhau bod costau yn cael eu hadennill yn llawn, a chydymffurfio â safonau uwch o ran rheoli lechyd a Diogelwch yn ystod digwyddiadau.

### Incwm Ystad

- Datblygu mecanweithiau er mwyn sicrhau taliadau ar gyfer gwasanaethau ecosystemau megis masnachu carbon yn ystod Prosiect Coetir Ysbryd Llynfi.
- Parhau i ddatblygu methodoleg Gwerthoedd Cyfalaf Naturiol mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru, er mwyn mesur gwerth gwasanaethau ecosystemau'r ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Parhau i sicrhau'r gwerth gorau am arian o incwm rhent megis lleoli strwythurau telathrebu.
- Rheoli'r defnydd o gerrig yn weithredol ar yr ystad a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol a gwerth am arian.
- Adolygu cyfraddau codi ffioedd am ganiatadau, digwyddiadau a gweithgareddau megis ffilmio.
- Sicrhau'r gwerth gorau o werthu asedau dros ben, megis adeiladau a depos nad oes ganddynt unrhyw ddiben gweithredol.

## Gwasanaethau Dadansoddi

- Cynyddu incwm masnachol sy'n dod o ganlyniad i wasanaethau dadansoddi'r labordi a ddarperir ar gyfer samplau sy'n gysylltiedig â Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, i gyflawni neu ragori ar y targedau a bennir yn yr Achos Busnes deng mlynedd ar gyfer symud y labordy i Brifysgol Abertawe.
- Dadansoddi ac ymchwilio i'r farchnad er mwyn nodi rhannau o'r farchnad lle mae arbenigedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn unigryw neu'n brin, gyda chyfleoedd ar gyfer dadansoddiad gwerth uwch maint isel.
- Sicrhau bod strwythurau llywodraethu mewnol yn cael eu sefydlu fel nad yw'r gwaith o ddatblygu incwm masnachol allanol yn cael effaith niweidiol ar y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid mewnol.